# Tasg 1

(Heriol, sbardun 2)

**Gweithgaredd grŵp**

Roedd Aesop yn storïwr oedd yn byw yng Ngroeg tua 2,500 o flynyddoedd yn ôl. Roedd e'n adrodd storïau byr oedd yn cynnwys moeswers fel arfer.

Dyma un o'i storïau:

**Y frân a'r jwg ddŵr**

Un tro, roedd brân yn sychedig tu hwnt. Pan welodd jwg, hedfanodd tuag ati, gan obeithio y byddai digon o ddŵr ynddi i'w yfed.

Roedd dŵr yn y jwg, ond yn anffodus, pan roddodd y frân ei phig i mewn iddi, sylweddolodd ei bod yn hanner gwag ac nad oedd ei phig yn gallu cyrraedd y dŵr. Roedd y frân bron ag anobeithio, gan ei bod mor sychedig, ond yna cafodd syniad.

Cododd garreg fach yn ei phig a'i gollwng i mewn i'r dŵr, ac yna un arall, ac yna un arall. Yn raddol, dechreuodd lefel y dŵr godi. Cododd garreg fach arall yn ei phig a gollwng honno i mewn i'r dŵr, ac yna un arall, ac yna un arall, gan ddal ati nes bod lefel y dŵr wedi cyrraedd top y jwg.

Yna, gan deimlo'n falch ohoni hi ei hun, rhoddodd ei phig i mewn i'r dŵr ac yfodd ... ac yfodd ... ac yfodd.

Beth yw moeswers y stori yma?

Feddyliodd un o'r grŵp am y cynllun hwn wrth i chi drafod y pos?

Nawr, ewch yn ôl i'r darn darllen.